Canllawiau ar awdurdodi bwyd anifeiliaid at ddefnydd maethol neilltuol (PARNUTs)

Gofynion gwneud cais am PARNUTs.

> Mae'r dudalen hon yn rhan o'r Canllawiau ar wneud cais am gynhyrchion wedi'u rheoleiddio

Mae PARNUTs yn fwydydd at ddibenion maethol neilltuol, a elwir hefyd yn fwyd anifeiliaid deietegol. Mae'n fwyd anifeiliaid sydd â dibenion maethol neilltuol sy'n cael ei roi i anifeiliaid am resymau iechyd. Mae PARNUTs yn diwallu anghenion maethol neilltuol anifeiliaid y mae eu swyddogaethau corfforol â nam dros dro neu nam anghildroadwy (irreversible).

Gall PARNUTs fodloni pwrpas maethol neilltuol trwy:

- gyfansoddiad penodol
- dull cynhyrchu penodol

Dylai bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol neilltuol ond gael ei farchnata ym Mhyrdain Fawr os:

- yw'r defnydd a fwriadwyd wedi'i gynnwys yn y rhestr o ddefnyddiau a fwriadwyd
- yw'n bodloni'r nodweddion maethol hanfodol at y diben maethol neilltuol a gynhwysir ar y rhestr honno

Mae Rheoliad 2020/354 yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir wedi sefydlu rhestr o'r defnyddiau arfaethedig ar gyfer bwyd anifeiliaid a fwriadwyd at ddibenion maethol neilltuol.

Gellir cychwyn y weithdrefn ar gyfer diweddaru'r rhestr o ddefnyddiau arfaethedig trwy gyflwyno cais.

Nodir cyfraith yr UE sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon ar ôl y cyfnod pontio yn Atodiad II Protocol Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu, os ydych chi'n ceisio diweddaru'r rhestr o ddefnyddiau arfaethedig yng Ngogledd Iwerddon, bydd yn rhaid i chi barhau i ddilyn rheolau'r UE a'i weithdrefnau awdurdodi.

Ceisiadau newydd

Defnyddiwch ein gwasanaeth gwneud cais am gynhyrchion wedi'u rheoleiddio i wneud cais i ddiweddaru'r rhestr ym Mhrydain Fawr trwy:

- ychwanegu defnydd arfaethedig PARNUT
- ychwanegu neu newid yr amodau sy'n gysylltiedig â defnydd penodol arfaethedig PARNUT

Ar ôl llenwi'r ffurflen gais, byddwch chi’n cael dolen lle gallwch chi lanlwytho cais a gwybodaeth berthnasol a chyfiawnhad dros ei ystyried. Nid oes unrhyw ffi am y cais.

Nid oes unrhyw ganllawiau penodol ar gael ar gyfer newidiadau i gategorïau PARNUTs. Dylai eich ffurflen gais nodi'r cais yn glir a chynnwys ffeil ategol sy'n dangos bod cyfansoddiad penodol y bwyd anifeiliaid:

- yn cyflawni'r pwrpas maethol neilltuol a fwriadwyd
- nad yw’n cael unrhyw effeithiau andwyol ar iechyd anifeiliaid, iechyd pobl, yr amgylchedd na lles anifeiliaid

Ceisiadau parhaus

Os gwnaethoch gyflwyno cais am gategori PARNUTs newydd neu newid i gategori presennol i'r UE cyn 1 Ionawr 2021 ac nad yw'r broses o ystyried y cais hwn wedi'i chwblhau, bydd angen i chi gyflwyno'ch cais i ni, gan ddefnyddio ein gwasanaeth gwneud cais am gynhyrchion wedi’u rheoleiddio.

Faint o amser fydd fy nghais yn ei gymryd?

Mae'r gyfraith yn cynnwys dyddiadau ar gyfer camau allweddol yn y broses. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd ceisiadau'n cymryd o leiaf blwyddyn.

Bydd ansawdd y goflen a'r wybodaeth a ddarperir, yn effeithio'n sylweddol ar yr amser sydd ei angen ar gyfer asesu ac awdurdodi. Rydym ni’n annog ymgeiswyr i ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl i sicrhau y gallwn ni brosesu'ch cais mor effeithlon â phosibl.

Cymorth

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y weithdrefn awdurdodi neu'r gofynion gwneud cais, gallwch chi gysylltu â ni drwy regulatedproducts@food.gov.uk

Gwneud cais

Defnyddiwch ein gwasanaeth gwneud cais am gynhyrchion wedi’u rheoleiddio i wneud cais i ddiweddaru’r rhestr o ddefnyddiau a fwriadwyd.